

Matrics tystiolaeth Safon 3 adolygiad perfformiad (Mai 2023)

Safon 3: Mae'r rheoleiddiwr yn deall amrywiaeth ei unigolion cofrestredig a'u cleifion a defnyddwyr gwasanaeth ac eraill sy'n rhyngweithio â'r rheoleiddiwr ac yn sicrhau nad yw ei brosesau yn cyflwyno rhwystrau gormodol neu'n creu unrhyw fath o anfantais arall i bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.

Canlyniad 1		Mae gan y rheoleiddiwr drefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau priodol ar waith i ymgorffori EDI ar draws ei weithgareddau rheoleiddio
Dangosyddion	23/24	Yn cadw data cyfredol a chywir sy'n cwmpasu'r holl nodweddion perthnasol ar gyfer uwch arweinwyr, y Cyngor, pwyllgorau, penderfynwyr a phanelwyr addasrwydd i ymarfer
	23/24	Yn meddu ar strategaeth/cynllun gweithredu EDI sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i ymgorffori arfer da newydd, gydag adroddiadau cyhoeddus rheolaidd yn erbyn targedau, cerrig milltir ac effaith
	23/24	Yn meddu ar strwythur llywodraethu clir i ymgorffori EDI ar draws y sefydliad
	23/24	Yn sicrhau nad yw ei bolisiau a'i brosesau rheoleiddio yn rhoi grwpiau penodol dan anfantais (gan gynnwys cynhyrchu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyn newidiadau/adolygiadau polisi mawr)
	25/26	Mae uwch arweinwyr, y Cyngor, pwyllgorau, penderfynwyr a phanelwyr addasrwydd i ymarfer yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned yn well

Canlyniad 2		O ran EDI, mae'r rheoleiddiwr yn sicrhau bod myfyrwyr ac unigolion cofrestredig yn gallu darparu gofal priodol i bob claf a defnyddiwr gwasanaeth, a bod ganddynt wybodaeth a sgiliau EDI priodol
Dangosyddion	23/24	Mae safonau a/neu ganllawiau ar gyfer myfyrwyr ac unigolion cofrestredig wedi'u cynllunio i'w galluogi i ddarparu gofal priodol i bob claf a defnyddiwr gwasanaeth
	23/24	Mae safonau a/neu arweiniad i fyfyrwyr ac unigolion cofrestredig yn ei gwneud yn ofynnol iddynt werthfawrogi amrywiaeth a herio gwahaniaethu
	23/24	Yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg a hyfforddiant ddangos eu bod yn paratoi myfyrwyr i ddarparu gofal priodol i bob claf a defnyddiwr gwasanaeth
	23/24	Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg a hyfforddiant ddangos eu bod yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion amrywiol myfyrwyr

	23/24	Yn cefnogi ac yn annog unigolion cofrestredig i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau EDI, gan gynnwys drwy ei ofynion DPP/ail-ddilysu lle bo'n berthnasol
	25/26	Yn dangos y cynnydd a wnaed ganddo ei hun a darparwyr addysg a hyfforddiant i arfogi myfyrwyr ac unigolion cofrestredig i ddarparu gofal priodol i bob claf a defnyddiwr gwasanaeth

Canlyniad 3		O ran EDI, mae'r rheoleiddiwr yn gwneud penderfyniadau teg ar draws yr holl swyddogaethau rheoleiddio
Dangosyddion	23/24	Yn cadw data cyfredol a chywir sy'n cwmpasu'r holl nodweddion perthnasol ar gyfer ei unigolion cofrestredig
	23/24	Yn sicrhau bod ei brosesau a'i ganllawiau addasrwydd i ymarfer yn mynd i'r afael â honiadau o ymddygiad hiliol ac ymddygiad gwahaniaethol arall
	23/24	Sicrhau bod staff, y Cyngor, y pwyllgor, penderfynyddion a phanelwyr addasrwydd i ymarfer yn cael hyfforddiant ar faterion EDI
	23/24	Yn defnyddio data a/neu dystiolaeth arall i nodi annhegwch yn ei brosesau a'i benderfyniadau, ac yn cymryd camau i leihau'r posibilrwydd o ragfarn
	23/24	Yn meddu ar ddulliau o gasglu data EDI gan y rhai sy'n mynegi pryderon addasrwydd i ymarfer ac yn lleihau rhwystrau i godi pryderon
	25/26	Yn dangos tystiolaeth o leihad mewn annhegwch mewn canlyniadau a nodwyd gan ei ddadansoddiad

Canlyniad 4		Mae'r rheoleiddiwr yn ymgysylltu ag eraill ac yn dylanwadu arnynt i hyrwyddo materion EDI a lleihau canlyniadau gwahaniaethol annheg
Dangosyddion	23/24	Yn ceisio adborth gan ystod amrywiol o randdeiliaid ac yn gweithredu arno
	23/24	Yn defnyddio ymchwil neu dystiolaeth sy'n nodi materion sy'n effeithio'n andwyol ar grwpiau o gleifion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig i lywio ei waith
	23/24	Yn darparu ac yn hyrwyddo llwybrau i alluogi unigolion cofrestredig, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth ac eraill i godi llais yn erbyn rhagfarn a gwahaniaethu
	23/24	Yn sicrhau ei fod yn nodi, yn cofnodi ac yn gweithredu ar elfennau EDI cwynion sefydliadol

23/24	Yn ymgysylltu â rheolyddion a sefydliadau eraill yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a thu hwnt, er enghraifft trwy grwpiau EDI rheoleiddio ar y cyd
23/24	Yn cyhoeddi ei ddata, ymchwil a dadansoddiad EDI ei hun
25/26	Yn gallu dangos effaith ei waith i leihau anghymesuredd annheg ar draws atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer
25/26	Ymgysylltu â darparwyr cymwysterau cymeradwy a sefydliadau eraill yn y sector i wella amrywiaeth derbyniadau a dilyniant myfyrwyr
25/26	Wedi gwneud cynnydd o ran datblygu a gweithredu ei gynlluniau i leihau unrhyw gyrhaeddiad gwahaniaethol annheg a nodwyd mewn hyfforddiant